Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Datganiad i'r Wasg / Press Release

23 Mehefin 2010

Y Diweddaraf ar Brosiect Ysbyty Llandudno

Mae'r ail o dri chylch gwaith a gafodd ei wneud hyd yn hyn gan y timau prosiect yn dangos bod cyfleoedd gwirioneddol i ddatblygu gwasanaethau'n sylweddol yn Ysbyty Llandudno. Nid yn unig bod dyfodol yr ysbyty yn ddiogel, ond hefyd bydd ei rôl yn newid yn gadarnhaol dros amser er mwyn gwneud yn siŵr fod y safle'n cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial i wella gwasanaethau cleifion.

Ymhlith y cynigion sy'n cael eu hystyried y mae: datblygu canolfan merched; datblygu gwasanaethau adsefydlu; a chynyddu cyfleusterau cleifion allanol, achosion dydd a diagnosteg. Bydd mwy o waith yn cael ei wneud hefyd i ddatblygu ffyrdd o wella gwasanaethau iechyd meddwl yn yr ysbyty. Ffactorau clinigol sy'n llywio'r holl gynigion er mwyn sicrhau bod gwasanaethau diogel ac effeithiol yn cael eu darparu yn Ysbyty Llandudno yn y tymor byr a'r tymor hirach.

Dros y misoedd nesaf bydd mwy o waith yn mynd ymlaen i edrych yn fanwl ar y cynigion, a bydd gennym well syniad o'r dewisiadau terfynol ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol yn yr ysbyty erbyn diwedd yr haf.

Yn ychwanegol, ac yn dilyn ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid, mae'r bwrdd prosiect wedi cytuno ar newidiadau i'r Uned Mân Anafiadau (MIU). O ganlyniad i'r prinder staff meddygol presennol ac archwiliad sy'n dangos mai ychydig sy'n dod yno ar ôl 10pm, bydd yr oriau agor yn newid o fis Medi er mwyn gwella lefel gwasanaeth yr MIU.

O'r amser hwn, bydd yr MIU ar agor rhwng 8am a 10pm a bydd meddyg ar gael yn yr uned rhwng yr oriau hyn, gwasanaeth na fu'n bosib ei ddarparu bob diwrnod am oddeutu'r 18 mis diwethaf.
Bydd yn bosib derbyn achosion brys yn yr ysbyty tan 6pm, 7 diwrnod yr wythnos. Ar ôl yr amser hwn, bydd cleifion yn cael eu hanfon i'r Ysbyty Cyffredinol Dosbarth lleol am ofal brys cyn cael eu trosglwyddo i Ysbyty Llandudno pan fydd eu cyflwr meddygol yn sefydlog a'i bod yn ddiogel gwneud hyn.

Mae staff clinigol yn cefnogi newidiadau i'r MIU a rheoli derbyn achosion brys ac yn credu y bydd y newidiadau hyn yn gwella diogelwch cleifion.

Dywedodd Neil Bradshaw, Cyfarwyddwr Cynllunio Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: "Rydym yn hapus iawn efo'r cynnydd ac mae'r prosiect ar y trywydd iawn i drefnu cynlluniau tymor hir yr ysbyty erbyn diwedd yr haf. Mae'n amlwg bod potensial enfawr i'r datblygiad ac mae'n arbennig o dda bod amrywiaeth eang o randdeiliaid yn rhan o'r broses."

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

DIWEDD

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Trystan Pritchard ar (01248) 384 938

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Datganiad i'r Wasg / Press Release

23 June 2010

Llandudno Hospital Project Update

The second of three cycles of work that has been undertaken to date by the project teams demonstrates that there are real opportunities for significant service development at Llandudno hospital. Not only is the future of the hospital secure, but its role will positively change over time to ensure maximum potential of the site is used to improve patient services.

Amongst the proposals under consideration are: the development of a women's centre; the development of rehabilitation services; and, increasing outpatient, day case and diagnostic facilities. Further work will also be undertaken to develop ways of improving mental health services within the hospital. All proposals are clinically driven to ensure that safe and effective services are provided at Llandudno hospital in both the short and longer term.

Further work to explore the proposals will be undertaken over the coming months, with a clearer idea of the final options for the future delivery of services at the hospital emerging by the end of the summer.

In addition, and following consultation with stakeholders, the project board has agreed on changes to the way the Minor Injuries Unit (MIU) is run. The current shortage of medical staff and an audit which shows minimal levels of attendance after 10pm, mean that to enhance the level of service provided at the MIU, its hours of opening will be changed, with effect from September.

From this time, The MIU will be open between 8am and 10 pm and will be medically led. This means that a doctor will be available at the unit between these hours, which has not been possible to provide every day for the last 18 months or so.

Emergency admissions will be accepted at the hospital until 6pm, 7 days a week. After this time, patients will be diverted to the local District General Hospital for their immediate and safe care before being transferred to Llandudno Hospital once they are medically stable and it is safe to do so.

Both changes to the MIU and to the management of emergency admissions are supported by clinical staff who believe that these changes will improve patient safety.

Neil Bradshaw, Executive Director of Planning at the Betsi Cadwaladr University Health Board said: "We are delighted with the progress and the project remains on course to achieve a clear view on the long term plans for the hospital by the end of

the summer. It is clear that there is huge potential for development and the involvement of a wide range of stakeholders has been particularly pleasing."

ENDS

For more information, contact Trystan Pritchard on (01248) 384 938